# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 17EG MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch a ni**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**Iwanedwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 9 Mehefin 2025)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

## AELODAETH (14)

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Arwyn Herald Roberts
Ioan Thomas
John Pughe
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Beca Roberts
Sian Williams

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Eryl Jones-Williams
Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2025, fel rhai cywir.

## 6. DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 9 - 19

I ystyried yr adroddiad a'i gynnwys a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

## 7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU 20 - 24

I hystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau, a derbyn yr hyn a gynigir.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 18/02/2025

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd-Jones (Cadeirydd), Stephen Churchman, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dewi Owen, Ioan Thomas, Edgar Wyn Owen, Beca Roberts, Sian Williams, Cai Larsen ac Anwen Jane Davies

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Mari Edwards (Rheolwr Dysgu a Datblygu), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau) ac Iwan Edwards (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Arwyn Herald Roberts a Llio Elenid Owen ac Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2024, fel rhai cywir.

## 5. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau. Eglurwyd bod saith maes hyfforddiant craidd wedi ei adnabod i Aelodau gyda'r teitlau craidd yma'n isafswm y mae pob Aelod ei angen i allu gwneud eu gwaith yn effeithiol. Amlygwyd fod y saith teitl craidd yma yn ymwneud â meysydd statudol y mae pob Aelod angen bod yn ymwybodol ohonynt pan yn craffu neu yn gwneud penderfyniadau.

Cyfeiriwyd at dabl yn yr adroddiad sydd yn dangos y canran o Aelodau sydd wedi cwblhau'r saith maes hyfforddiant craidd. Soniwyd nad yw'r targed o gael pob aelod i gwblhau'r saith teitl craidd wedi ei gyrraedd eto, ond fod cynnydd i'w weld yn y niferoedd sydd wedi cwblhau'r teitlau dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd fod cefnogi

Aelodau i gwblhau'r cyrsiau craidd yn flaenoriaeth ac mewn ymdrech i hwyluso hyn, mae recordiadau o'r saith teitl craidd bellach ar gael ar y fewnrwyd aelodau. Eglurwyd mai'r gobaith yw fod hyn yn gwneud pethau'n haws i Aelodau gael mynediad i gwblhau'r teitlau craidd ar amser sy'n hwylus iddynt.

Diolchwyd i'r Aelodau am eu hymatebion i'r holiadur a anfonwyd  atynt ym mis Medi 2024. Eglurwyd bod yr ymatebion o'r holiadur yn gymorth i swyddogion wrth ymateb i'r fframwaith hunan asesu i Gynghorwyr gan roi darlun o ddymuniadau a blaenoriaethau Aelodau o ran hyfforddiant.

Nodwyd fod rhaglen hyfforddiant eisoes wedi ei gyflwyno i'r Aelodau a bydd gwaith pellach yn digwydd dros y misoedd nesaf i'w phoblogi ymhellach yn unol â chanlyniadau'r holiadur a'r hyn mae'r adrannau yn dymuno ei gynnwys yn y rhaglen.

Cyfeiriwyd hefyd at hyfforddiant VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol) fel un pwysig i'r Aelodau ei gwblhau. Nodwyd fod trafodaethau ar waith i'r pwnc hwn fod yn faes craidd i adlewyrchu y gofyn statudol a bod ambell i Gyngor cyfagos eisoes wedi dilyn y trywydd yma. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cais i ychwanegu yr hyfforddiant yma fel hyfforddiant craidd ychwanegol.

Trafodaeth:

- Nododd Aelod fod enghreifftiau o ferched yn treisio dynion ac felly, er tegwch, fod angen ystyried hyn yn yr hyfforddiant VAWDASV. Mewn ymateb, esboniwyd mai merched yw'r canran sydd yn cael eu targedu fwyaf gan gam-drin domestig a thrais rhywiol ond cytunwyd gyda'r pwynt fod dynion hefyd yn dioddef. Nodwyd fod yr hyfforddiant yn cyfarch hyn yn ei gyfanrwydd.
- Gofynnwyd i'w wneud yn glir pa feysydd yw'r hyfforddiant craidd ac i ystyried gyrru e-bost yn atgoffa'r aelodau sydd ddim wedi mynychu'r rhain. Mewn ymateb, diolchwyd i'r Aelod am ei sylwadau ac eglurwyd fod gwaith ar fi'n cael ei wneud i sefydlu systemau clir er mwyn cyhoeddi'r wybodaeth am ba hyfforddiant mae Aelodau wedi eu cwblhau. Nodwyd fod y drefn newydd o gyhoeddi gwybodaeth am y niferoedd o aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd yn cychwyn ym mis Ebrill 2025.
- Nododd Aelod ei fod yn cytuno gyda'r cais i wneud yr hyfforddiant VAWDASV yn un o'r meysydd craidd ychwanegol ac eiliwyd hynny yn ffurfiol. Gofynnwyd i gynnwys nodyn yn egluro ei fod yn berthnasol i drais yn erbyn dynion hefyd.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad.**
**Argymell ychwanegu hyfforddiant 'Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol' sy'n cynnwys trais yn erbyn dynion, fel maes hyfforddiant craidd.**

**6. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH O RESYMOLI CYFLWYNO GWYBODAETH I GYNGHORWYR**

Cyflwynwyd - adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith o resymoli cyflwyno gwybodaeth i Gynghorwyr gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith. Nodwyd bod nifer o aelodau wedi mynegi eu bod yn boddi gyda'r holl geisiadau hyfforddiant a sesiynau briffio, a'u bod yn ei gweld hi'n anodd blaenoriaethu beth sydd yn bwysig. Eglurwyd fod gwaith wedi digwydd yn fewnol i sefydlu trefniadau penodol i gyflwyno ceisiadau ar gyfer sesiynau briffio a chyflwyno gwybodaeth i Aelodau.

Yn ogystal, esboniwyd bod gwaith yn mynd ymlaen ar resymoli'r rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau ac i ddatblygu'r rhaglen hyfforddiant. Nodwyd y bydd diffiniad clir ar gyfer beth yw'r saith hyfforddiant craidd a'r disgwyliad i bob Cynghorydd gyflawni'r rhain, a beth yw'r hyfforddiant ychwanegol, sef yr hyfforddiant tu allan i'r saith maes craidd.

Nodwyd fod sesiynau gwybodaeth hefyd ar gael i'r Aelodau gyda'r bwriad o gynnal sesiynau sydd yn berthnasol i holl Gynghorwyr Cyngor Gwynedd.

Esboniwyd bod gwaith yn digwydd i geisio gwneud gwell defnydd o'r Fforymau Ardal. Eglurwyd y bydd rhai materion yn cael eu cyfeirio at y Fforymau Ardal er mwyn caniatáu trafodaeth ar faterion lleol sy'n berthnasol i ardaloedd penodol. Bydd hyn y rhoi cyfle i aelodau holi cwestiynau a mynd tu cefn i bynciau yn fwy dwys.

Amlygwyd fod calendr y pwyllgorau yn eithaf llawn a bod adnabod dyddiad rhydd ble nad oes cyfarfod arall wedi ei drefnu wedi bod yn her. Nodwyd fod yr adran wedi penderfynu treialu trefn newydd o drefnu un dyddiad y mis ar gyfer cynnal sesiynau briffio ac un dyddiad y mis ar gyfer cynnal y rhaglen hyfforddiant. Nodwyd y bydd y dyddiadau yma yn cael eu nodi yn y calendr pwyllgorau fel bod yr aelodau yn ymwybodol ohonynt ymlaen llaw.

Trafodaeth:

- Nodwyd bod Fforwm Ardal Dwyfor wedi cael trafferth gydag amserlen y rhaglen mewn cyfarfod diweddar, gydag un eitem yn rhedeg dros yr amser dynodedig felly doedd dim digon o amser i gwblhau'r drafodaeth ar yr eitem olaf. Cydnabuwyd ei bod hi'n anodd mesur faint o amser mae pob eitem yn mynd i gymryd ac i ystyried cynnwys llai o eitemau ar y rhaglen i'r dyfodol.

**PENDERFYNIAD**
**Nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad**

**7. CALENDR PWYLLGORAU 2025/26**

Cyflwynwyd calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2025/26 am sylwadau'r aelodau cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn ar y 6ed o Fawrth, 2025. Nodwyd mai pwrpas y Calendr yw i gynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor. Cyfeiriwyd at atodiad 1 sydd yn dangos y dyddiadau sydd wedi eu rhaglennu ar hyn o bryd gan nodi y gall cyfarfodydd eraill gael eu hychwanegu yn ôl yr angen.

Yn ychwanegol, nodwyd hefyd yn y calendr y dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau.

Trafodaeth:

- Gofynnwyd a yw'n bosib nodi ar yr holl eitemau yn y calendr beth yw'r opsiynau o ran mynychu'r cyfarfod, hynny yw a yw'r cyfarfod yn un rhithiol neu hybrid. Awgrymwyd y gellir ychwanegu blaenlythrennau i nodi beth yw ffurf y cyfarfod. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r tîm Democratiaeth yn edrych mewn i'r posibiliadau a diolchwyd am yr awgrym.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyniad yr adroddiad ac argymell Calendr Pwyllgorau 2025/26 i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu.**

## 8. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR

**PENDERFYNIAD**
**Nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynwyd - adroddiad yn edrych ar sut mae'r Tîm Democratiaeth yn darparu cefnogaeth i Gynghorwyr a sut maent yn sicrhau fod y gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu yn cwrdd ag anghenion y Cynghorwyr. Nodwyd bod holiadur bodlonrwydd wedi ei anfon i'r aelodau ym mis Rhagfyr 2024 yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu gan y tîm Democratiaeth. Eglurwyd bod 36 o atebion wedi eu derbyn, oedd yn gynnydd ar niferoedd flwyddyn ddiwethaf. Adroddwyd bod 97% wedi nodi fod y gwasanaeth yn 'dda' neu yn 'dda iawn' ac un wedi nodi ei fod yn 'dderbyniol' ond heb roi sylwadau pellach.

Adroddwyd fod ambell i sylw wedi ei dderbyn fel y dymuniad i dderbyn copïau papur o raglenni pob pwyllgor. Eglurwyd nad yw hyn yn bosib ar hyn o bryd yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn i geisio lleihau ar bapur fel rhan o'r arbedion. Er hyn, nodwyd fod y tîm Democratiaeth yn barod i helpu unrhyw aelod sydd gyda phroblemau golwg ac felly yn gorfod derbyn copi papur. Nodwyd hefyd bod sylw arall wedi ei wneud ynglŷn â dymuno clywed am wybodaeth yn fewnol yn y Cyngor yn gyntaf, cyn darllen amdano yn y papurau newydd.

Yn ogystal, adroddwyd bod bwriad ceisio ail afael ar drefniadau i gynnal sgyrsiau un i un gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig a chael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau i Gynghorwyr.

Trafodaeth:

- Nododd aelod ei bod wedi mynychu sesiwn ar y fewnrwyd aelodau yn ddiweddar gan nodi fod y sesiwn yn un diddorol ac wedi bod yn fuddiol iawn.
- Diolchwyd am yr adroddiad ac ei fod yn bositif iawn. Un sylw a nodwyd oedd y dylai cynghorwyr gael mynediad i ddatganiadau i'r wasg. Mewn ymateb, nodwyd fod hyn yn syniad da a byddai yn rhywbeth fydd y tîm yn edrych mewn iddo yn y dyfodol

## 9. CYFUNDREFN RHYBUDDION O GYNNIG

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro gyda'r amcan i roi crynodeb o drefniadau'r Cyngor i ymdrin â Rhybuddion o Gynnig ac yn benodol eu priodoldeb. Nodwyd ei fod yn esbonio'r cyd-destun cyfreithiol perthnasol, y trefniadau sydd mewn lle a'r arweiniad sydd ar gael i aelodau.

Nodwyd fod gan unrhyw rybudd o gynnig rym penderfyniad os yw'n cael ei fabwysiadu. Eglurwyd fod hyn yn golygu felly ei bod yn anodd i'r Cyngor fabwysiadu rhybudd oherwydd cynnwys. Er hyn, esboniwyd nad yw'n ceisio creu argraff y bydd pob rhybudd o gynnig yn cael eu gwrthod; os yw rhybudd o gynnig yn cael ei dderbyn ble mae cwestiwn ar ei briodoldeb, bydd y Swyddog Monitro yn siarad gyda'r Aelod

a'n ceisio cytuno ar addasu'r cynnig. Nododd y Swyddog Monitro ei fod wedi darparu canllawiau i gynorthwyo gyda'r weithdrefn hon.

Trafodaeth:

- Gofynnwyd os oes bwriad i gylchredeg yr adroddiad i holl aelodau'r Cyngor. Mewn ymateb, esboniwyd fod y canllawiau wedi cael eu cylchredeg i'r Aelodau, ac os o fudd, gall gylchredeg yr adroddiad iddynt hefyd er gwybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yp a daeth i ben am 2:00yp

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Mehefin 2025** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Drafft o adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad a'i gynnwys a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.3 Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Adroddiad ar ffurf drafft a gyflwynir i chi heddiw, gyda chyfle i chi roi sylw ar ei gynnwys a'i ffurf.

2.5 Bydd yr adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor llawn yn cynnwys argymhelliad i sefydlu 8fed maes hyfforddiant craidd ar gyfer Aelodau Etholedig, sef Trais yn erbyn Menywod (sy'n cynnwys trais yn erbyn dynion hefyd), fel y bu i'r pwyllgor hwn ei gefnogi yn mis Chwefror eleni.

2.6 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eich sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o dimau yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda chi gyd i'r dyfodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

# Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

2024/2025



# RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol yn amlinellu'n gryno iawn y gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Gwynedd. Mae'n anodd credu fy mod yn adrodd ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod trydydd blwyddyn y Cyngor hwn. Unwaith eto eleni mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwaith craidd a'r gwelliannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn eich cefnogi.

Rwy'n awyddus i barhau i'ch cefnogi yn y modd mwyaf effeithiol a fyddai hynny ddim yn bosib heb eich cefnogaeth chi fel Cynghorwyr a chefnogaeth y gwahanol swyddogion sy'n gweithio'n y cefndir.

Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi dros y blynyddoedd i ddod. Diolch.

Cofion,
Ian



*Ian Jones,*

**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

# CEFNOGAETH I CHI FEL CYNGHORWYR

Mae nifer o dimau ar draws y Cyngor yn cynnig cefnogaeth i chi fel Cynghorwyr. Fodd bynnag, mae'r prif ddarpariaeth yn dod gan y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Rwy'n ymwybodol fod cryn newidiadau wedi bod yn ystod y flwyddyn diwethaf, ac felly nodaf y diweddariadau isod i chi er gwybodaeth. Gobeithio fod y strwythur hefyd yn cynnig tros olwg i chi o'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Arweinydd Tîm**



Llongyfarchiadau i Annes Siôn, Arweinydd Tîm Democratiaeth, ar enedigaeth mab bach, a chroeso nol o'i chyfnod mamolaeth.

Diolch i Sioned Mai Jones a fu'n gweithredu fel Arweinydd Tîm dros gyfnod mamolaeth Annes. Pob hwyl i Sioned, sydd wedi symud i swydd newydd yn y Cyngor ers mis Mai 2025.



**Arweinydd Tîm Dros Gyfnod**

**Swyddogion 2024/25**



Penodwyd Jasmine Jones fel Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Medi 2024 ac Iwan Edwards fel Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth dros dro hyd ddiwedd Gorffennaf 2025.

Byddwn yn croesawu Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth newydd atom, Gwen Roberts, fydd yn cychwyn ar ei gwaith yn ystod cyfnod yr haf.

**Swyddog 2025**

**Ymddeoli**




Rydych yn ymwybodol fod Eirian Roberts yn ymddeol wedi bron i 40 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor. Diolch arbennig i ti Eirian am dy holl waith caled, cywrain a thawel. Bydd bwlch ar dy ôl.

Mae Sian Ellis-Williams hefyd wedi ymddeol yn hyblyg ers Ionawr 2025, gan barhau i weithio dau ddiwrnod yr wythnos yn cefnogi'r Cadeirydd a'r gwaith dinesig am gyfnod hyd ddiwedd Gorffennaf 2026.




**Ymddeol Hyblyg**

**Swyddog Democratiaeth a Dinesig**



Bydd Courtney Jones yn cychwyn fel Swyddog Democratiaeth a Dinesig gyda'r tîm, gan adael ei swydd bresennol fel Cynorthwydd Grŵp Plaid Cymru. Penodwyd Courtney i'r swydd honno ym mis Gorffennaf 2024.

Mae Meleri Roberts wedi ymuno gyda'r tîm cyfieithu ym mis Ebrill 2025, yn gyfieithydd proffesiynol sy'n gallu darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifenedig.




**Swyddog Cyfieithu**

**Swyddog Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd**

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth  yn darparu gwasanaeth i gefnogi Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd. Gan fod y gwaith yn cynyddu yn y maes, byddwn yn symud ymlaen i benodi Arweinydd Tîm Democratiaeth (CBC) yn fuan, a bydd Sera Whitley yn cychwyn fel swyddog democratiaeth CBC yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rydych hefyd yn derbyn cefnogaeth gan y Tîm Dysgu a Datblygu, a phenodwyd Mari Edwards fel Rheolwr Gwasanaeth Dysgu a Datblygu ym mis Medi 2024.  Mae Mari'n arwain ar holl waith y tîm, ac yn reolwr llinell ar gyfer Cara Williams, sy'n gyfrifol am hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr.



**Tîm Dysgu a Datblygu**

*Gellir gweld y strwythur ddiweddaraf o'r gwasanaeth ar ddiwedd yr adroddiad.*

Gwelir fod nifer o newidiadau wedi bod yn ddiweddar, ac rwy'n dymuno llongyfarch y gwasanaeth ar barhau i gynnig gwasanaeth i'r safon uchaf tra'n anwytho staff newydd i'w rolau.  Fel y gwelir bydd newidiadau eto yn ystod 2025/26 ac rwy'n hyderus o allu'r gwasanaeth i barhau i gyflawni, gan ddiolch i bawb am eu hymroddiad yn ystod yr holl newidiadau.

# ADRODD CYNNYDD AR FLAENORIAETHAU 2024/25

**Bu i mi adnabod pedair prif flaenoriaeth ar gyfer 2024/25 a oedd yn adeiladu ar y seiliau cadarn oedd eisoes mewn lle.  Mae'r isod yn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn y pedwar maes.**

---

## Beth wnaethom ei addo?

**Parhau i adeiladu ar ein trefniadau Diogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr o fewn ein gallu.**

## Be sydd wedi ei gyflawni?

*Rydym wedi:*

- Cynnig cefnogaeth barhaus i Gynghorwyr – gan gynnal nifer o sgyrsiau un i un gyda Cynghorwyr dros y flwyddyn.
- Sefydlu cyswllt gyda swyddog penodol o'r heddlu sy'n arwain ar faes diogelu aelodau seneddol, ac sy'n awyddus i gyd-weithio gyda'r Cyngor i gynnig cefnogaeth i Gynghorwyr Gwynedd.
- Dilyn canllawiau Iechyd a Diogelwch i adrodd ar faterion o drais neu fygythiad i gynghorydd trwy ddefnyddio'r ffurflen briodol HS11.
- Parhau i gadw golwg ar faterion diogelwch wrth adolygu ein trefniadau cynnal cyfarfodydd rhithiol yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cymryd pob cam posib i osgoi tarfu ar gyfarfodydd.
- Codi ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb Cynghorwyr o'r  trefniadau diogelwch tân wrth ymweld ag adeiladau'r Cyngor, yn arbennig ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol.

## Be sydd i'w wneud yn 2025/26?

- Hyrwyddo'r angen i Gynghorwyr adrodd ar faterion o drais neu fygythiad trwy ddilyn y camau priodol a llenwi ffurflen HS11, a'i dychwelyd fel bo cofnod o'r digwyddiad.
- Hyrwyddo'r sesiwn briffio gan y swyddog o'r heddlu fel bo pob Cynghorydd yn ymwybodol o'r gefnogaeth uniongyrchol sydd ar gael iddynt gan yr heddlu. Cynhelir sesiwn briffio gan yr Heddlu ar y 5ed a'r 16eg o Fehefin, 2025. Gall unrhyw aelod sydd wedi methu'r sesiynau hyn ymuno â sesiynau rhanbarthol i Gynghorwyr Gogledd Cymru.

# DIOGELWCH A CHEFNOGAETH

## Beth wnaethom ei addo?

**Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor.**

### Be sydd wedi ei gyflawni?

*Rydym wedi:*

- Canolbwyntio ar gyflawni'r hyfforddiant craidd. Cynhaliwyd y sesiynau 'byw' olaf o'r meysydd hyfforddiant craidd yn ystod y flwyddyn, gan ofyn i Gynghorwyr wylio recordiad o sesiynau o hyn allan. Nid oes modd parhau i gynnal sesiynau i niferoedd bychan gan fod hynny'n llyncu adnodd prin.
- Sefydlu'r egwyddor o beidio cynnal hyfforddiant os oes llai na 5 yn bresennol er mwyn sicrhau y defnydd gorau o adnoddau (oni bai ei fod o natur hyfforddiant 1:1).
- Symud ymlaen i raglen mwy datblygol ei naws i'r Cynghorwyr yn ystod y flwyddyn.
- Sefydlu trefniadau 'sesiynau briffio' ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r holl Gynghorwyr, gan flaenoriaethu pa sesiynau sy'n cael eu cynnal. Mae rhai materion wedi eu cyfeirio am drafodaeth yn y Pwyllgorau Ardal a materion eraill wedi eu cyflwyno er gwybodaeth yn y Bwletin Aelodau wythnosol.
- Wrth geisio lleihau'r baich ar Gynghorwyr, mae wedi creu mwy o waith yn y cefndir yn blaenoriaethu materion i'r gwahanol ffynonellau ac wrth recordio'r gwahanol sesiynau briffio.
- Cychwyn cyhoeddi gwybodaeth, fesul Cynghorydd, am pa hyfforddiant craidd sydd wedi ei gyflawni a phryd, yn gyhoeddus ar y safle we.
- Derbyn argymhelliad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i sefydlu 8fed maes hyfforddiant craidd ar gyfer Aelodau Etholedig, sef Trais yn erbyn Menywod (sy'n cynnwys trais yn erbyn dynion hefyd). Rwy'n argymell i'r maes yma gael ei sefydlu fel 8fed maes craidd yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor llawn.

### Be sydd i'w wneud yn 2025/26?

- Rydym am fod yn treialu cynnal 'diwrnod hyfforddiant' a 'diwrnod sesiynau briffio' dros 25/26 i geisio hwyluso rhaglenni gwaith Cynghorwyr. Mae'r calendr blynyddol eisoes wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn gyda'r dyddiadau uchod wedi ei hadnabod fesul mis. Rhoddwyd rhag-rybudd fod posibilrwydd o orfod newid o'r dyddiadau hyn oherwydd argaeledd swyddogion allweddol i gyflwyno ar ddyddiadau penodol.
- Parhau i ddatblygu'r trefniadau newydd gan ystyried adolygu y newidiadau ar ddiwedd 26/27, wedi 12 mis o weithredu'r drefn calendr newydd a 18 mis o weithredu'r sesiynau briffio.
- Argymhellir ychwanegu hyfforddiant 'Trais yn erbyn Menywod' (sy'n cynnwys trais yn erbyn dynion hefyd) fel 8fed maes hyfforddiant craidd i'r Aelodau Etholedig.

# RHESYMOLI'R RHAGLEN HYFFORDDIANT /BRIFFIO



| NEWIDIADAU I DREFNIADAU CRAFFU | NEWYDDLEN Y CADEIRYDD |
| --- | --- |
| **Beth wnaethom ei addo?** | |
| Bwrw ymlaen gyda newidiadau i drefniadau Craffu er mwyn sicrhau fod Craffu yn gwneud gwahaniaeth. | Gweithio gyda Cadeirydd y pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr—gan gychwyn gyda 'newyddlen y Cadeirydd' fel rhan o'r bwletin Aelodau yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. |
| **Be sydd wedi ei gyflawni?** | |
| *Rydym wedi:*<br>• Cyflawni ar holl argymhellion adroddiad Archwilio Cymru, gan yrru ar welliannau wrth lunio argymhellion, ystyried effaith craffu ayyb.<br>• Pwysleisio rôl y Cadeirydd a'r is-gadeirydd, yn arbennig wrth lunio argymhellion clir i'r Cabinet a gweithredu fel pencampwyr dros graffu yng Ngwynedd.<br>• Bydd adroddiad llawn ar yr holl faterion a gwelliannau sydd wedi eu cyflawni ym maes craffu yn ystod 24/25 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Hydref 2025. | *Rydym wedi:*<br>• Ail ystyried y flaenoriaeth uchod a phenderfynu gyda Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i beidio ail gychwyn creu 'newyddlen y Cadeirydd' yn dilyn pob cyfarfod o'r pwyllgor. Roedd hyn yn sgil sylwadau Aelodau eu bod yn brysur iawn ac yn derbyn gormodedd o ebyst. Teimlwyd fod creu ebost ychwanegol yn mynd yn groes i ddymuniadau'r Aelodau.<br>• Parhau i ddefnyddio'r Bwletin Aelodau wythnosol i dynnu sylw'r aelodau at faterion pwysig sy'n eich effeithio. Materion megis cyflogau 25/26, gwybodaeth am sesiynau hyfforddiant a chefnogaeth arall, ayyb. |
| **Be sydd i'w wneud yn 2025/26?** | |
| • Gweithredu'r trefniadau i gyflwyno adroddiadau herio perfformiad i'r pwyllgorau craffu o Fehefin 2025 ymlaen. | |



# LLWYDDIANNAU ERAILL YN 2024/25

- 97% o Gynghorwyr Gwynedd wedi adrodd bod gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn, sy'n gynnydd o'r 91% yn 2023/24.
- 94% o daflenni penderfyniad wedi eu cyhoeddi o fewn 5 diwrnod gwaith. Gostyngiad yn y lefel perfformiad ers 2024/25 yn sgil pwysau cynyddol ar y tîm democratiaeth a swyddogion eraill o fewn yr awdurdod a thu hwnt.
- Cynnal y rhaglen bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn, dros 150 o gyfarfodydd i gyd, yn gyfarfodydd rhithiol ac aml-leoliad gan sicrhau gwe ddarlledu y cyfarfodydd perthnasol i gyd.
- Cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn i sicrhau penderfyniad ar system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.
- Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn holl bwyllgorau'r Cyngor ac mewn cyfarfodydd anffurfiol, a chynnig gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig i holl adrannau'r Cyngor.
- Cynnig cefnogaeth benodol i Gadeirydd ac is-Gadeirydd y Cyngor yn ogystal a Chadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor trwy hyfforddiant penodol, ateb ymholiadau yn ystod pwyllgor a pharatoi taflenni briffio ar eu cyfer.
- Darperir cefnogaeth trwy'r Fforwm Craffu i'r Cadeiryddion Craffu, yn ogystal a'r gefnogaeth dydd i ddydd iddynt ar gyfer pob cyfarfod o'r pwyllgor.
- Croesawu dau Gynghorydd newydd yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau fod darpariaeth TG a gwybodaeth gyfredol ar gael iddynt.
- Cynnig cefnogaeth, hyfforddiant a briffio i Arweinydd newydd y Cyngor yn ogystal a'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelodau Cabinet newydd a gafodd eu penodi yn ystod y flwyddyn.
- Gweinyddu cyflogau a chostau Cynghorwyr a chyhoeddi'r wybodaeth yn unol a'r gofynion statudol.
- Gwneud trefniadau i groesawu nifer o blant a phobl ifanc i ymweld â Siambr Dafydd Orwig a deall mwy am drefniadau democratiaeth y Cyngor mewn tair sesiwn benodol dros y flwyddyn a fu.
- Gweinyddu pwyllgorau rhanbarthol, yn arbennig Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i is-fyrddau.
- Cyfrannu'n helaeth at waith datblygu Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i is-fyrddau. Mae hyn wedi cymryd llawer iawn o amser swyddogion penodol, a bydd yn parhau i gymryd amser rhai swyddogion dros y blynyddoedd i ddod.



# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2025/26

Rwy'n gyfforddus fod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y ddwy flynedd i ddod.  Mae'n amser i gychwyn edrych a meddwl am drefniadau Mai 2027 ac ymlaen, ac mae'r blaenoriaethau isod i gyd ynghlwm â chychwyn paratoi mewn da bryd:

- Cychwyn paratoi at Etholiadau Mai 2027. Byddwn yn defnyddio Fframwaith CLlLC wrth barhau i adolygu'r gefnogaeth bresennol i Gynghorwyr a cheisio adnabod gwelliannau a newidiadau wrth baratoi am etholiadau Mai 2027.

- Byddwn yn adolygu y ddarpariaeth yn y siambrau o ran cyfarpar ac ansawdd y profiad. Byddwn yn anelu i ddatblygu astudiaeth dichonolrwydd a chynllun gwella yn ystod tymor yr Hydref, 2025.

- Byddwn yn edrych ar
  - trefniadau cyn etholiad,
  - trefniadau diwrnod yr etholiad,
  - trefniadau croesawu ac anwytho,
  - trefniadau y 6-12 mis cyntaf ac amlinelliad o drefniadau'r ail flwyddyn,
  - cefnogaeth gyffredinol i Gynghorwyr.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen gyda rhai materion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn a fu, gan gynnwys:

- Gwneud gwell defnydd o amser a chefnogaeth cynorthwywyr y grwpiau gwleidyddol, yn arbennig i sicrhau fod negeseuon allweddol yn cyrraedd Cynghorwyr.

- Codi ymwybyddiaeth Cynghorwyr o'r angen i adrodd ar unrhyw ddigwyddiad neu fygythiad gan lenwi a dychwelyd y ffurflenni perthnasol (HS11).

- Gofyn i'r Cyngor llawn fabwysiadu 8fed maes o Hyfforddiant craidd i gynghorwyr, sef Trais yn erbyn Menywod.  Mae'r meysydd hyfforddiant craidd wedi eu hadnabod er mwyn arfogi Cynghorwyr i gyflawni yn eu rôl yn llwyddiannus ac yn ddiogel.





## PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
Ian Jones



### RHEOLWR DEMOCRATIAETH AC IAITH
Vera Jones



#### ARWEINYDD TÎM DEMOCRATIAETH
Annes Sion

**Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth**

- Lowri Haf Evans
- Rhodri Jones
- Jasmine Jones
- *I'w gadarnhau* *(Penodiad Newydd)*
- Mair Eirian Roberts *(Tan Diwedd Gorffennaf 2025)*
- Iwan Edwards *(Tan Diwedd Gorffennaf 2025)*

**Swyddog Democratiaeth a Dinesig**

- Sian Ellis Williams *(Tan Diwedd Gorffenaf 2026)*
- *I'w gadarnhau* *(Penodiad Newydd)*



#### ARWEINYDD TÎM CYFIEITHU
Bethan Evans

**Cyfieithwyr**

- Rhiannon Ellis-Williams
- Lowri Elin Evans
- Glesni Foulkes
- Delyth Mai Jones
- Manon Gwyn Jones
- Meleri Haf Roberts
- Mererid Watt
- Eleri Williams
- Elin Wynne



#### UWCH YMGYNGHORYDD Y GYMRAEG A CRAFFU
Llywela Owain

**Tîm y Gymraeg a Chraffu**

- Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)
- Nia Haf Lewis (Ymgynghorydd Iaith)
- Ant Evans (Swyddog Iaith Cynorthwyol) *(Tan Diwedd Mawrth 2026)*
- Mei Mac (Swyddog Prosiect) *(Tan Diwedd Mawrth 2026)*


#### ARWIENYDD TÎM DEMOCRATIAETH CBC
*I'w gadarnhau*

**Swyddog Democratiaeth CBC**

*I'w gadarnhau*

#### CYNORTHWYWYR GRWPIAU GWLEIDYDDOL

- Courtney Jones – Grŵp Plaid Cymru
- Delyth Ross – Grwp Annibynnol



### PENNAETH CYNORTHWYOL
Catrin Love



#### RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU
Mari Edwards

- Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau)
- Ken Richardson (Swyddog E-ddysgu a Chefnogaeth TG i Aelodau)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 17 Mehefin 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad |
| **AWDURON** | Mari Edwards, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad<br>Cara Williams, Swyddog Datblygu Aelodau |

**1. TROSOLWG**

1.1 Mae 7 Maes Craidd wedi ei adnabod i Aelodau. Y teitlau Craidd yma yw'r hyfforddiant y mae ei angen ar pob Aelod er mwyn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol. Maent yn ymwneud â meysydd statudol a llywodraethiant y Cyngor y dylai'r holl Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt.

1.2 Er bod anogaeth gyson i Aelodau fod yn cwblhau'r hyfforddiant Craidd yma, a darpariaeth i hwyluso sesiynau ar y Fewnrwyd, prin iawn yw'r cynnydd wedi bod ers mis Chwefror 2025.

Dyma ddiweddariad o lle ydym arni gyda'r teitlau Craidd:

| **Teitl**<br>**Diweddariad Mehefin 2025** | **Niferoedd wedi Cwblhau** | **Niferoedd heb Gwblhau** |
|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 50 | 19 |
| Cod Ymddygiad | 53 | 16 |
| Cydraddoldeb | 39 | 30 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 34 | 35 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 57 | 12 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 51 | 18 |
| Rhiantu Corfforaethol | 47 | 22 |
| **ER GWYBODAETH : Bydd hwn yn deitl craidd ychwanegol ar ôl mis Gorffennaf 2025:**<br>Grwp 6 : Trais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol | 39 | 30 |

1.3 Mae’r tabl dilynol yn dangos y newid sydd wedi bod ar y niferoedd sydd wedi cwblhau’r teitlau Craidd dros y flwyddyn ddiwethaf:

| **Teitl Craidd (niferoedd wedi cwblhau)** | **Chwefror 2024** | **Tachwedd 2024** | **Chwefror 2025** | **Mehefin 2025** |
|---|---|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 44 | 50 | 51 | 50 |
| Cod Ymddygiad | 39 | 50 | 54 | 53 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | 14 | 27 | 34 | 34 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 33 | 33 | 57 | 57 |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 27 | 39 | 39 | 39 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 45 | 51 | 52 | 51 |
| Rhiantu Corfforaethol | 39 | 46 | 46 | 47 |

**1.4** Mae recordiadau o’r 7 Teitl Craidd ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau. Y gobaith yw, bod yr adnodd yma ar-lein yn mynd i’w wneud pethau’n haws i Aelodau gael mynediad i gwblhau’r teitlau Craidd ar amser sy’n hwylus.

**1.5** Gwyddoch fod yr hyfforddiant TRAIS neu VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a thrais rhywiol) bellach yn mynd i fod yr wythfed Maes Craidd, fydd yn weithredol o fis Gorffennaf 2025. Mae’r recordiad o’r hyfforddiant yma, hefyd, ar gael ar-lein. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud i hwyluso sesiynau pellach yn y dyfodol agos.

## 2.0 DYSGU A DATBLYGU

**2.1** Mae cynnig parhaus i Aelodau fod yn derbyn sgwrs Datblygiad Personol gyda’r Rheolwr Dysgu a Datblygu. Roedd y cynnig hwn, gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn agored i'r Aelodau Cabinet yn y lle cyntaf, ac mae bwriad o ymestyn y cynnig i weddill yr Aelodau yn yr Hydref. Mae ambell Aelod wedi cymryd mantais o’r cynnig yma i allu trafod unrhyw anghenion hyfforddiant/datblygol fel cefnogaeth i'w gwaith. Bydd y ddeilliannau o’r sgyrsiau datblygol yma, yn caniatáu i ni fel gwasanaeth, fod cynnig darpariaeth hyfforddiant neu gefnogaeth mwy arbenigol i hwyluso gwaith dydd i ddydd Aelodau.

**2.2** Mae’r gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen i ymateb i ganlyniadau’r holiadur Anghenion Dysgu a Datblygu. Mae hyfforddiant ar Gostau Byw a Newidiadau yn y Byd Budd-daliadau eisoes wedi cymryd lle, yn ogystal â sesiwn ar ‘Ymateb i Dwyll yn yr Oes Ddigidol’. Mae ‘Arweinyddiaeth Ward’ yn deitl sy’n derbyn sylw ar hyn o bryd, gyda’r gobaith o allu trefnu cwrs yn y dyfodol agos.

**2.3** Mae’r Rhaglen Hyfforddiant ddiweddaraf wedi ei atodi ar waelod yr adroddiad hwn (Atodiad 1). Bydd y gwaith o boblogi a diweddaru’r rhaglen yn parhau i ddigwydd dros y misoedd nesaf.

**2.4** Gall cyfleoedd eich cyrraedd i fynychu cynadleddau neu gyrsiau. Mae'n bosib i'r Cyngor gynorthwyo Aelodau gyda chostau mynychu Cynadleddau/Cyrsiau a gall nifer ohonynt gael eu hystyried fel 'datblygiad'. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol ohoni gydag adnoddau yn brin y dyddiau yma, mae angen i faes y gynhadledd neu'r cwrs fod yn berthnasol i'ch gwaith chi fel Aelod er mwyn i'r Cyngor gefnogi eich cais (e.e., os ydych yn eistedd ar Bwyllgor penodol a bod y cyfle yn codi i fynychu cynhadledd yn y maes). Ni chaniateir i Aelodau archebu lle ar Gynhadledd/gwrs heb dderbyn cymeradwyaeth yn y lle cyntaf gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG
# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME
# 2025/26

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| Mai 7 May 2025 | (10:00 – 11:00) | Helpu pobl sy'n colli allan – hanfodion budd-daliadau i Gynghorwyr<br>Helping people who are missing out – Benefits basics for Councillors | Rhithiol<br>Virtual | Megan Meeke (Hyfforddiant Welfare Training( |
| Mai 12 May<br>Mai 21 May | (3:00 – 4:30)<br>(2:00 – 3:30) | Hyfforddiant Herio perfformiad Craffu<br>Scrutiny performance training | Rhithol<br>Virtual<br>l | Geraint Owen |
| Mehefin 4 June 2025 | (10:00 – 12:00) | Hyfforddiant Ffordd Gwynedd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>Ffordd Gwynedd training for the Governance & Audit Committee | Wyneb i wyneb<br>Face to Face | Catrin Love |
| Mehefin 5 June 2025<br>Mehefin 16 June 2024 | (2:00 – 3:00)<br>(10:30 – 11:30) | Ymgyrch Ford (Diogelwch Personol Cynghorwyr)<br>Operation Ford (Councillor Personal Safety) | Rhithiol<br>Virtual | Heddlu Gogledd Cymru<br>North Wales Police |
| Mehefin 25 June 2025 | (9:00 – 4:30) | Gweithdy Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar<br>Progressive Community Leadership Workshop | Rhithiol / Virtual | CLILC / WLGA |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2 July 2025 (10:00 – 1:00) | Safonau Archwilio Mewnol (Byd Eang a swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)<br>Global Internal Audit Standards and the role of the Governance and Audit Committee | Wyneb i wyneb, Ystafell gyfarfod Beics Antur, Porth yr Aur, Caernarfon \| Face to face Beics Antur, Caernarfon | Luned Fôn Jones |
| Gorffennaf 9 July 2025 (2:00 – 3:00) | Codi ymwybyddiaeth am waith Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)<br>Raising awareness of the work of Gwynedd Consultancy | Rhithio<br>Virtual | Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a YGC / Head of Highways an YGC) |
| Medi 17 September 2025 (heb ei gadarnhau yn bendant \| Not fully confirmed) | Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth : Cynllun Datblygu Lleol<br>Awareness Session : Local Development Plan | I'w gadarnhau<br>To be confirmed | Swyddogion Adran Amgylchedd<br>Environment Department Staff |
| Hydref 8 October 2025 (9:30 – 12:30) | LHDTCRA+ (Cydraddoldeb)<br>LGTBQ+ (Equality) | Wyneb i wyneb<br>Ystafell Deudraeth Room<br>Penrhyndeudraeth | Adferiad |
| Tachwdd 5 November 2025 | | | |
| Rhagfyr 3 December 2025 | | | |
| Ionawr 7/28 January 2026 2026 | | | |
| Mawrth 4 March | | | |
| Ebrill 15 April 2026 | | | |

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles